# Bethan Jenkins AC
# Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru)

## Crynodeb o'r Ystadegau

## Cefndir

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o ymatebion holiadur a dderbyniwyd fel rhan o ymgynghoriad y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru).

Roedd yr holiaduron yn canolbwyntio ar dair agwedd allweddol y Bil, sef:

- Cynnwys addysg ariannol yng nghwricwlwm ysgolion;
- Gosod dyletswydd ar rai cyrff statudol i hyrwyddo arferion ariannol da; ac
- Sicrhau bod awdurdodau lleol yn darparu cyngor ariannol i bobl.

Roedd yr holiadur cyntaf - **a oedd yn targedu pobl ifanc mewn ysgolion uwchradd** - yn gofyn cwestiynau cyffredinol am eu barn ar sicrhau bod addysg ariannol yn cael ei addysgu mewn ysgolion; pe bae ysgol yw'r lle gorau i ddysgu am bethau fel treth, benthyciadau ac aros allan o ddyled; a pe bae nhw'n credu bod y fath yma o addysg yn ei baratoi nhw'n well i wneud penderfyniadau ariannol da pan fydda nhw'n hŷn.

Roedd yr ail holiadur - **a oedd yn targedu'r cyhoedd yn gyffredinol** - yn gofyn am farnau mwy manwl gan ymatebwyr ar wella gallu ariannol ymhlith plant oedran ysgol a phobl ifanc, yn ogystal â'u barn p'un a dylai awdurdodau lleol (a sut a gallent nhw) helpu i atal pobl rhag mynd i drafferthion ariannol.

## Methodoleg

Roedd yr holiadur cyntaf - **a oedd yn targedu pobl ifanc mewn ysgolion uwchradd** - wedi'u greu fel Gweithgaredd Dosbarth. Fel bod pobl ifanc yn cael mynegi'u barn ar addysg ariannol a chynhwysiant, roedd cwestiynau'r holiadur wedi'u teilwra fel caiff eu hateb gan bob disgybl o fewn ac yn ystod eu gwersi trwy bleidleisio wrth law ar bob opsiwn i bob cwestiwn. Roedd yr holiadur hefyd yn rhoi cyfle iddyn nhw roi mwy o fanylder os byddent yn dewis.

Roedd yr ail holiadur - - **a oedd yn targedu'r cyhoedd yn gyffredinol** - wedi'u hysgrifennu mewn fformatau meintiol ac ansoddol a'r roedd mwy o gyfle i ymatebwyr wneud sylwadau ar y cwestiynau.

## Ystadegau Allweddol

**454** Cyfanswm yr ymatebion a gafwyd i'r arolwg


**226** Cyfanswm yr ymatebion a gafwyd i'r arolwg a oedd yn targedu pobl ifanc

**228** Cyfanswm yr ymatebion a gafwyd i'r arolwg a oedd yn targedu'r cyhoedd yn gyffredinol

## Adran Un – Crynodeb o'r ymatebion gan arolwg pobl ifanc

**Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau addysg leol wneud yn siŵr bod addysg ariannol (hynny yw, dysgu am dreth, benthyciadau, aros yn glir o ddyled ac ati) yn cael ei addysgu yn yr ysgol o Gyfnod Allweddol 2 ymlaen (7+ oed)?**

- Cytuno: **65% (147)**
- Anghytuno: **14% (31)**
- Ddim yn gwybod: **21% (47)**





**Sylwadau Ychwanegol**

- Amlinellodd un ymatebydd y pwysigrwydd o ddysgu addysg ariannol fel sgil hanfodol "byw".

### Cwestiwn 2: A dylai addysg ariannol cael ei addysgu yn yr ysgol o Gyfnod Allweddol 2 ymlaen (7+ oed)?

- Dylai: **25% (56)**
- Na ddylai: **61% (138)**
- Ddim yn gwybod: **14% (32)**





**Sylwadau Ychwanegol**

- Roedd un ar ddeg o ymatebydd yn teimlo bod addysgu addysg ariannol o Gyfnod Allweddol 2 (7+ oed) yn rhy ifanc.


**Cwestiwn 3: A ddylai'r pethau a ddysgwch yn yr ysgol a gwersi adlewyrchu profiadau a dewisiadau yr ydych yn debygol o'u hwynebu ar ôl gadael yr ysgol?**

- Dylai: **86% (193)**
- Na ddylai: **5% (12)**
- Ddim yn gwybod: **9% (21)**



**Cwestiwn 4: A ydych eisiau dysgu mwy am bethau fel treth, benthyciadau ac aros yn glir o ddyled?**

- Ydw: **67% (151)**
- Nac ydw: **24% (54)**
- Ddim yn gwybod: **9% (21)**





**Sylwadau Ychwanegol**

- Roedd tri ymatebydd yn teimlo bod dysgu mwy am bethau fel treth, benthyciadau ac aros yn glir o ddyled yn ddefnyddiol;
- Roedd un ymatebydd yn meddwl dylai dysgu mwy am bethau fel treth, benthyciadau ac aros yn glir o ddyled fod yn rhan o'r cwricwlwm Mathemateg.

### Cwestiwn 5: Ai yn yr ysgol yw'r lle gorau i ddysgu am y pethau hyn?

- Ie: **58% (13)**
- Na: **22% (50)**
- Ddim yn gwybod: **20% (45)**





**Sylwadau Ychwanegol**

- Teimlai dau ymatebydd er y byddai ysgol y lle gorau i ddysgu am y pethau hyn, gellid dysgu rhai gwersi gan unigolion o fewn y sector ariannol;
- Roedd un ymatebydd yn teimlo mai'r rhieni oedd yn y sefyllfa orau i addysgu pobl ifanc am y pethau hyn.

**Cwestiwn 6: Os oedd addysg ariannol yn cael ei haddysgu ar draws y cwricwlwm (drwy ddysgu am bethau fel treth, benthyciadau ac ati yn ystod gwersi fel Mathemateg a Saesneg), a fyddech mewn sefyllfa well i wneud penderfyniadau ariannol da pan fyddwch yn hyn?**

- Byddai: **71% (160)**
- Na fyddai: **8% (19)**
- Ddim yn gwybod: **21% (46)**





**Sylwadau Ychwanegol**

- Teimlai un ymatebydd y dylid addysgu addysg ariannol bod yn bwnc ynddo'i hun.

**Cwestiwn 7: A ddylai cyfleusterau ar-lein mewn llyfrgelloedd fod ar gael heb i orfod talu amdanynt?**

Mae mynediad i'r rhyngrwyd am ddim yn holl lyfrgelloedd Cymru yn darparu gwasanaeth hanfodol i bobl ifanc, bobl sy'n agored i niwed ac sy'n chwilio am waith, ac mae Bethan Jenkins AC yn awyddus i sicrhau bod hyn yn cael ei warchod yn y dyfodol.

- Dylai: **84% (190)**
- Na ddylai: **6% (13)**
- Ddim yn gwybod: **10% (23)**





**Sylwadau Ychwanegol**

- Roedd un ymatebydd yn teimlo bod gwasanaethau llyfrgell am ddim yn hanfodol i'r rhai na allant fforddio.

**Cwestiwn 8: A ddylai cynghorau wneud mwy i helpu pobl (nid pobl ifanc yn unig) i allu rheoli eu harian yn gyfrifol?**

- Dylai: **78% (176)**
- Na ddylai: **9% (20)**
- Ddim yn gwybod: **13% (30)**



**Cwestiwn 9: Ym mha flwyddyn ysgol ydych/eich disgyblion?**

Blwyddyn 7: **15% (34)**

Blwyddyn 8: **4% (8)**


Blwyddyn 9: **50% (113)**

Blwyddyn 10: **2% (4)**

Blwyddyn 11: **9% (21)**

Blwyddyn 12: **20% (44)**

Blwyddyn 13: **0.4% (1)**




**Cwestiwn 10: Pa ysgol ydych yn cynrychioli?**

Ysgol Y Bro Gwaun: **18% (40)**

Ysgol Syr Thomas Jones: **10% (22)**


Ysgol Pontarddulais: **9% (20)**

Ysgol Sir Fynwy: **50% (114)**

Ysgol Uwchradd Hawarden: **12% (26)**

Ysgol Gyfun Glantaf: **1% (2)**


Ysgol Bryntawe: **1% (2)**



## Adran Dau – Crynodeb o ymatebion gan y cyhoedd cyffredinol

**Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno dylid gosod dyletswydd statudol ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau addysg leol i sicrhau bod addysg ariannol yn cael ei ddarparu fel rhan o addysg orfodol o Gyfnod Allweddol 2 ymlaen (7+ oed)?**

- Cytuno **93% (210)**
- Anghytuno: **4% (9)**
- Ddim yn gwybod: **3% (7)**





**Sylwadau Ychwanegol**

- Roedd pum ymatebydd yn teimlo bod dysgu addysg ariannol o Gyfnod Allweddol 2 (7+ oed) yn rhy ifanc;
- Mynegodd dau ymatebydd bod llythrennedd ariannol yn sgil gydol oes ac yn un sy'n hen bryd i'w haddysgu fel rhan o gwricwlwm cenedlaethol;
- Roedd un unigolyn wedi mynegi pryder bod y cwricwlwm eisoes yn orlawn.

**Cwestiwn 2: A ddylai addysgu a'r cwricwlwm cenedlaethol adlewyrchu'r profiadau a'r dewisiadau y mae pobl ifanc yn debygol o'u hwynebu ar ôl gadael yr ysgol?**

- Dylai: **98% (213)**
- Na ddylai: **2% (5)**





**Sylwadau Ychwanegol**

- Roedd pum ymatebydd yn croesawu'r argymhelliad y dylai'r cwricwlwm adlewyrchu'r profiadau a'r dewisiadau y mae pobl ifanc yn debygol o wynebu, ar y sail bod pobl ifanc yn barod ar hyn o bryd i wneud penderfyniadau ariannol cadarn ar ôl gadael addysg.

**Cwestiwn 3: A fyddai cynnwys addysg ariannol ar draws y cwricwlwm yn paratoi pobl ifanc yn well ar gyfer yr heriau a'r dewisiadau fydd yn eu hwynebu fel oedolion?**

- Byddai: **96% (210)**
- Na fyddai: **1% (3)**
- Ddim yn gwybod: **3% (8)**





**Sylwadau Ychwanegol**

- Amlinellir chwe ymatebydd y dylai addysg ariannol fod yn uniongyrchol berthnasol i brofiadau ariannol tebygol pobl ifanc;
- Roedd un unigolyn yn teimlo y dylid ymwreiddio addysg ariannol yn y cwricwlwm fel na fydd yn lleihau ei gwerth a phwysigrwydd.


**Cwestiwn 4: "Rwy'n credu y dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori a rhanddeiliaid perthnasol ac arbenigwyr yn brydlon wrth ddatblygu cynnwys y cwricwlwm ar addysg ariannol" - A ydych yn cytuno?**

- Cytuno: **96% (192)**
- Anghytuno: **4% (8)**




## Cwestiwn 5: Ydych chi'n credu y dylai unrhyw un arall fod yn rhan o'r ymgynghoriad?

- Dylai: **56% (104)**
- Na ddylai: **44% (83)**





## Os ydych wedi ateb "Dylai", datganwch pwy y dylai ymgynghori â os gwelwch yn dda.



**Cwestiwn 6: Os daw addysg ariannol yn statudol, a ddylai fod gan ysgolion hyblygrwydd o ran sut maent yn dilyn canllawiau ar ei gyflawniad? (Byddai hyn yr un peth ac Addysg Bersonol a Chymdeithasol ac addysg gysylltiedig â gwaith ond yn wahanol i'r ffordd y caiff pynciau'r cwricwlwm cenedlaethol eu haddysgu)**

- Dylai: **63% (127)**
- Na ddylai: **23% (46)**
- Ddim yn gwybod: **14% (27)**





**Sylwadau Ychwanegol**

- Roedd un ar ddeg o'r ymatebwyr yn dadlau y dylai athrawon yn y ddarpariaeth o addysg ariannol gael mwy o ryddid a dehongli yn y ddarpariaeth;
- Roedd wyth cyfranogwr yn teimlo y dylai athrawon gael rhywfaint o arweiniad o ran cyflwyno a chynnwys addysg ariannol;
- Roedd chwe ymatebydd yn teimlo y dylai unrhyw Bwyntiau Dysgu Allweddol fod yn orfodol, tra teimlai tri ymatebydd y dylai unrhyw Bwyntiau Dysgu Allweddol fod yn ddewisol;
- Dywedodd tri ymatebydd dylai unrhyw raddau o hyblygrwydd dim ond dod unwaith mae'r cynlluniad peilot wedi cael eu harchwilio'n llawn a'u heffeithiolrwydd wedi'u fesur;
- Roedd un unigolyn yn teimlo y byddai hyn yn dibynnu ar arbenigedd yr athro;
- Dywedodd tri ymatebydd y dylai addysg ariannol adlewyrchu'r hyn sydd yn cael ei addysgu yng nghyd-destun y pwnc dosbarth dynodedig;
- Roedd un ymatebydd yn cyflwyno'r farn y dylid fwy o adnoddau cael ei wneud ar gael er mwyn darparu addysg ariannol;
- Roedd un ymatebydd yn teimlo y dylai'r hyblygrwydd hon ar gyfer athrawon adlewyrchu ac ymdrin â materion lleol.

**Cwestiwn 7: A ddylai'r ddyletswydd i adolygu cynnydd addysg ariannol mewn ysgolion a gynhelir fod yn rhan o rôl Estyn wrth arolygu ysgolion ac awdurdodau addysg leol yng Nghymru?**

- Dylai: **78% (155)**
- Na ddylai: **9% (18)**
- Ddim yn gwybod: **13% (26)**





**Sylwadau Ychwanegol**

- Dadleuodd deg ymatebydd y byddai Estyn yn y sefyllfa orau i wneud hyn, cyn belled â bod yr arolygiad addysg ariannol ddim yn dod yn ymarfer "ticio bocsys";
- Roedd dau ymatebwr yn teimlo y byddai Estyn yn y sefyllfa orau i arolygu addysg ariannol, fel y dylai fod yn rhan o'r cwricwlwm craidd;
- Dywedodd un ymatebydd fod yn ychwanegol at arolygu, dylid hefyd bod adolygiad blynyddol;
- Roedd un ymatebydd yn teimlo y byddai unrhyw gyfundrefn arolygu yn amharu ar ddysgu sy'n canolbwyntio ar y plentyn;
- Roedd un cyfranogwr yn dadlau y dylid arolygu fod yn ddewisol;
- Dywedodd un cyfranogwr y dylai'r Gweinidog hefyd adrodd ar yr addysg ariannol a ddarperir mewn ysgolion.
-

**Cwestiwn 8: Ydych chi'n credu bod awdurdodau lleol yn gwneud digon ar hyn o bryd i hyrwyddo cynhwysiant ariannol (mynediad, am gost resymol, ar gyfer pob dinesydd at wasanaethau ariannol ac addysg ariannol) ymhlith y rhai sy'n byw yn eu hardal?**

- Ydw: **5% (10)**
- Nac ydw: **77% (151)**
- Ddim yn gwybod: **18% (35)**





**Sylwadau Ychwanegol**


- Roedd pedwar ymatebydd yn teimlo bod cyngor ddim yn bodoli ar hyn o bryd, neu pe byddai, mae'n anodd dod o hyd i;
- Dadleuodd pedwar ymatebydd bod hyrwyddo cynhwysiant ariannol yn annhebygol o wella oherwydd cyfyngiadau ar adnoddau a blaenoriaethau sy'n cystadlu;
- Roedd tri ymatebydd yn cytuno y byddai gosod disgwyliad statudol ar awdurdodau lleol yn gyrru ei hyrwyddo;
- Teimlai dau gyfranogwr y byddai hyrwyddo cynhwysiant ariannol yn cael eu cyflawni'n well gan yr Undebau Credyd;
- Roedd dau gyfranogwr yn cytuno bod awdurdodau lleol ddim yn hyrwyddo amgen ariannol sefydliadau digon (er enghraifft, Cyngor ar Bopeth, Undebau Credyd ac ati).

**Cwestiwn 9: Ydych chi'n meddwl y byddai'n syniad da os oedd yn ofynnol i bob awdurdod lleol gael strategaeth yn amlinellu sut y mae'n bwriadu hyrwyddo cynhwysiant ariannol ymysg ei thrigolion?**


- Ydw: **89% (169)**
- Nac ydw: **11% (20)**




**Os ydych wedi ateb "Nac ydw", amlinellwch eich awgrymiad(au) os gwelwch yn dda.**




## Cwestiwn 10: Os oedd yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio strategaeth cynhwysiant ariannol, beth ddylai'r strategaeth cynnwys?



**Cwestiwn 11: A ddylai awdurdodau lleol darparu cymorth i'w preswylwyr sy'n eu helpu i reoli eu harian yn effeithiol?**

- Dylai: **81% (156)**
- Na ddylai: **10% (19)**
- Ddim yn gwybod: **9% (18)**





**Sylwadau Ychwanegol**

- Roedd deunaw o'r ymatebwyr yn dadlau y dylid darparu o'r fath help a chymorth gan sefydliadau eisoes yn bodoli gydag arbenigedd, er enghraifft, CAB;
- Roedd pedwar ymatebydd yn teimlo dylid darparu'r cymorth hwn drwy ysgolion;
- Dywedodd dau ymatebydd er mwyn i awdurdodau lleol ddarparu'r cymorth hwn, mae rhaid dyrannu adnoddau ychwanegol iddynt;
- Roed un ymatebwr yn teimlo na ddylai awdurdodau lleol ymyrryd mewn sefyllfa ariannol eu preswylwyr;
- Dadleuodd un ymatebwr y dylai'r ddarpariaeth hon o gymorth fod yn ymrwymiad cymunedol.

**Cwestiwn 12: A ddylai fod yn ofynnol i brifysgolion a sefydliadau addysg bellach hefyd darparu eu myfyrwyr gyda chefnogaeth sy'n annog rheoli arian yn effeithiol?**

- Dylai: **94% (176)**
- Na ddylai: **5% (10)**
- Ddim yn gwybod: **1% (2)**





**Sylwadau Ychwanegol**

- Roedd tri ymatebydd yn teimlo nad oedd y gwasanaeth yn fwy hanfodol bellach nawr bod ffioedd dysgu wedi cynyddu;
- Roedd un ymatebydd yn teimlo ni ddylai'r gefnogaeth hon fod yn orfodol;
- Roedd saith ymatebwr yn dadlau bod prifysgolion/sefydliadau addysg uwch eisoes yn darparu gwasanaeth hwn;
- Amlinellodd un ymatebydd tra bod prifysgolion/sefydliadau addysg uwch yn darparu’r gwasanaeth yma, dylid gwneud mwy i roi cyngor ar yr agweddau ymarferol ar gyllid, er enghraifft talu Treth Cyngor;
- Roedd un ymatebydd yn annog gweithio mewn partneriaeth ymhellach gyda’r CAB yn yr achos yma.

**Cwestiwn 13: A ddylai'r cyhoedd allu defnyddio cyfleusterau ar-lein mewn llyfrgelloedd heb orfod talu?**

- Dylai: **93% (173)**
- Na ddylai: **4% (8)**
- Ddim yn gwybod: **3% (5)**




**Sylwadau Ychwanegol**

- Roedd tri ymatebydd yn teimlo y dylai'r gwasanaeth hwn barhau a'i bod yn hanfodol i'r rheini na allent gael cyfleusterau ar-lein yn y cartref;
- Dadleuodd dau ymatebwr y dylid cael mwy o offer TGCh a hyfforddiant TGCh sydd ar gael mewn llyfrgelloedd;
- Roedd un ymatebydd yn dadlau y dylid gwneud mwy i hyrwyddo gwasanaethau ar-lein ac am ddim sydd ar gael mewn llyfrgelloedd;
- Dywedodd un ymatebydd y gallai hyn dibynnu ar incwm blynyddol yr unigolyn.